



# Arfer meddygol da

Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor  
Meddygol  
Cyffredinol

# Dyletswyddau meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r CMC

---

Rhaid bod modd i gleifion ymddiried eu bywydau a'u hiechyd gyda meddygon. Er mwyn cyfiawnhau'r ymddiriedaeth honno, rhaid i chi ddangos parch tuag at fywyd dynol a sicrhau bod eich arfer yn bodloni'r safonau a ddisgwylir gennych mewn pedwar maes.

## Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

- Sicrhau eich bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eich claf.
- Darparu gofal a gwaith meddyg o safon da.
  - Sicrhau eich bod yn diweddarau eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol.
  - Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd.

## Diogelwch ac ansawdd

- Gweithredu yn ddi-oed os oes gennych reswm da dros gredu y gallech chi neu gydweithiwr fod yn rhoi cleifion mewn perygl.
- Diogelu a hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd.

## Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm

- Trin cleifion fel unigolion a pharchu eu hurddas.
  - Trin cleifion mewn ffordd gwrtais ac ystyrlon.
  - Parchu hawl cleifion i gyfrinachedd.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chleifion.
  - Gwrando ar gleifion ac ymateb i'w pryderon a'u dewisiadau.
  - Rhoi'r wybodaeth y maent yn ei dymuno neu'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael i gleifion, mewn ffordd y gallant ei deall.
  - Parchu hawl cleifion i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal gyda chi.
  - Cynorthwyo cleifion i ofalu am eu hunain er mwyn gwella a chynnal eu hiechyd.
- Gweithio gyda chydweithwyr mewn ffyrdd sy'n diwallu buddiannau cleifion orau.

## Cynnal ymddiriedaeth

- Bod yn onest ac yn agored, a gweithredu mewn ffordd ddi-dwyll.
- Ni ddylech fyth wahaniaethu yn erbyn cleifion neu gydweithwyr mewn ffordd annheg.
- Ni ddylech fyth gymryd mantais ar ffydd eich cleifion ynddoch neu ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn.

Rydych yn atebol yn bersonol am eich gwaith proffesiynol fel meddyg ac mae'n rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd bob amser.

---

# Arfer meddygol da

---

Cyhoeddwyd Mawrth 2013.

Bydd yn dod i rym ar 22 Ebrill 2013.

Diweddarwyd yr arweiniad hwn ar 29 Ebrill 2014 er mwyn cynnwys paragraff 14.1 ynghylch sgiliau Saesneg meddygon. Diweddarwyd hwn ymhellach ar 29 Ebrill 2019 er mwyn dileu'r is-bennawd 'gonestrywydd' yn syth cyn paragraff 65.

Mae modd i chi weld y fersiwn diweddaraf o'r arweiniad hwn ar ein gwefan, sef [www.gmc-uk.org/guidance](http://www.gmc-uk.org/guidance).

Am gyfeiriadau gwefan llawn y cyfeiriadau yn yr arweiniad hwn, trowch at y fersiwn ar-lein ar ein gwefan.

# Cynnwys

---

	Tudalen
<b>Am yr arweiniad hwn</b>	<b>03</b>
<b>Proffesiynoldeb ar waith</b>	<b>04</b>
Datblygu a chynnal eich perfformiad proffesiynol	
<b>Maes 1: Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad</b>	<b>06</b>
Defnyddio gwybodaeth a phrofiad yn eich gwaith	07
Cofnodi'ch gwaith mewn ffordd eglur, manwl a darllenadwy	09
Cyfrannu at systemau er mwyn diogelu cleifion a chydymffurfio gyda nhw	10
<b>Maes 2: Diogelwch ac ansawdd</b>	<b>10</b>
Ymateb i risgiau o ran diogelwch	11
Diogelu cleifion a chydweithwyr rhag unrhyw risg yn sgil eich iechyd	12
Cyfathrebu effeithiol	13
<b>Maes 3: Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm</b>	<b>13</b>
Cydweithio gyda chydweithwyr er mwyn cynnal neu wella gofal ar gyfer cleifion	14
Addysgu, hyfforddi, cynorthwyo ac asesu	14
Parhad a chyd-drefniant gofal	15
Sefydlu partneriaethau gyda chleifion, a'u cynnal	16
<b>Dangos parch tuag at gleifion</b>	<b>18</b>
<b>Maes 4: Cynnal ymddiriedaeth</b>	<b>18</b>
Trin cleifion a chydweithwyr mewn ffordd deg, heb wahaniaethu	19
Gweithredu mewn ffordd onest a didwyll	21
<b>Ôl-nodion</b>	<b>25</b>
<b>Mynegai</b>	<b>28</b>

# Am yr arweiniad hwn

---

Mae *Arfer meddygol da* yn cynnwys cyfeiriadau at arweiniad esboniadol. Mae modd gweld rhestr lawn o'r dogfennau arweiniad esboniadol ar ddiwedd y llyfryn.

Mae'n holl ddogfennau arweiniad ar gael ar ein gwefan, ynghyd â:

- deunyddiau dysgu, gan gynnwys astudiaethau achos rhyngweithiol sy'n cyfleu'r egwyddorion yn yr arweiniad mewn ffordd fyw ac sy'n dangos sut y gallent fod yn berthnasol mewn sefyllfaoedd go iawn
- achosion y mae tribiwnlysoedd ymarferwyr meddygol wedi gwrandao arnynt, y maent yn cynnig enghreifftiau o achosion lle y mae methu dilyn yr arweiniad wedi peryglu cofrestrriad meddyg.

# Proffesiynoldeb ar waith

---

- 1 Mae angen meddygon da ar gleifion. Mae meddygon da yn sicrhau eu bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eu cleifion: maent yn gymwys, gan ddiweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth, maent yn sefydlu ac yn cynnal perthnasoedd da gyda chleifion a chydweithwyr,<sup>1</sup> maent yn onest ac yn ddibynadwy, ac yn gweithredu o fewn y gyfraith ac mewn ffordd sy'n dangos uniondeb.
- 2 Mae meddygon da yn gweithio mewn partneriaeth gyda chleifion, gan barchu eu hawl i breifatrwydd ac urddas. Byddant yn trin pob claf fel unigolyn. Byddant yn gwneud eu gorau i sicrhau bod pob claf yn cael gofal a thriniaeth dda a fydd yn eu cynorthwyo i fyw bywyd mor dda ag y bo modd, beth bynnag fo eu salwch neu eu hanabledd.
- 3 Mae *Arfer meddygol da* yn disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan bob meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC). Eich cyfrifoldeb chi yw bod yn gyfarwydd ag *Arfer meddygol da* a'r arweiniad esboniadol<sup>2</sup> sy'n ei gynorthwyo, a dilyn yr arweiniad a nodir ynddynt.
- 4 Rhaid i chi ddefnyddio eich crebwyll i weithredu'r egwyddorion yn y sefyllfaoedd amrywiol y byddwch yn eu hwynebu fel meddyg, os ydych yn meddu ar drwydded i wneud gwaith meddygol neu beidio, beth bynnag fo'r maes meddygaeth yr ydych yn gweithio ynddo, ac os ydych yn gweld cleifion yn rheolaidd neu beidio. Rhaid i chi fod yn barod i esbonio a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd.

- 
- 5 Yn *Arfer meddygol da*, defnyddir y termau 'rhaid i chi' a 'dylech' yn y ffyrdd canlynol.
- 'Defnyddir 'Rhaid i chi' ar gyfer egwyddor neu ddyletswydd o'r pwys mwyaf.
  - Defnyddir 'Dylech' pan fyddwn yn rhoi esboniad o'r ffordd y byddwch yn cyflawni'r ddyletswydd o'r pwys mwyaf.
  - Yn ogystal, defnyddir 'Dylech' pan na fydd y ddyletswydd neu'r egwyddor yn berthnasol ym mhob sefyllfa neu amgylchiad, neu pan fo ffactorau y tu allan i'ch rheolaeth yn effeithio ar sut neu a ydych yn gallu cydymffurfio â'r arweiniad.
- 6 Er mwyn cynnal eich trwydded i wneud gwaith meddygol, rhaid i chi ddangos, trwy gyfrwng y broses ailddilysu, eich bod yn gweithio yn unol â'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodir yn yr arweiniad hwn. Bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn yr arweiniad hwn yn peryglu'ch cofrestrriad.

# Maes 1: Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

---

## Datblygu a chynnal eich perfformiad proffesiynol

- 7 Rhaid i chi fod yn gymwys ym mhob agwedd ar eich gwaith, gan gynnwys rheoli, ymchwil ac addysgu.<sup>3,4,5</sup>
- 8 Rhaid i chi ddiweddarau eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol.
- 9 Rhaid i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnal ac sy'n datblygu eich gallu a'ch perfformiad, yn rheolaidd.<sup>6</sup>
- 10 Dylech fod yn fodlon darganfod a chymryd rhan mewn cyfleoedd cymorth strwythuredig a gynigir gan eich cyflogwr neu'r corff sy'n eich contractio (er enghraifft, mentora). Dylech wneud hyn pan fyddwch yn ymuno â sefydliad a phryd bynnag y bydd eich rôl yn newid mewn ffordd arwyddocaol trwy gydol eich gyrfa.
- 11 Rhaid i chi fod yn gyfarwydd gyda chanllawiau a datblygiadau sy'n effeithio ar eich gwaith.
- 12 Rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r gyfraith, ein harweiniad a'r rheoliadau diweddaraf sy'n berthnasol i'ch gwaith, a chydymffurfio â nhw.
- 13 Rhaid i chi gymryd camau i fonitro ac i wella ansawdd eich gwaith.



---

## Defnyddio gwybodaeth a phrofiad yn eich gwaith

**14** Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau'ch cymhwysedd.

14.1 Rhaid i chi feddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol er mwyn darparu gofal ac arfer o safon da yn y DU.<sup>7</sup>

**15** Rhaid i chi ddarparu gofal a gwneud gwaith meddygol o safon da. Os byddwch yn asesu, yn gwneud diagnosis neu'n trin cleifion, rhaid i chi:

- a** asesu cyflyrau'r claf yn ddigonol, gan ystyried eu hanes (gan gynnwys y symptomau, a ffactorau seicolegol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol), eu safbwyntiau a'u gwerthoedd; dylech archwilio'r claf yn ôl yr angen
- b** darparu neu drefnu cyngor, archwiliadau neu driniaeth addas yn brydlon, yn ôl yr angen
- c** cyfeirio claf at ymarferwr arall pan fyddai hyn yn bodloni anghenion y claf.<sup>8</sup>

**16** Wrth ddarparu gofal clinigol, rhaid i chi:

- a** ragnodi cyffuriau neu driniaeth, gan gynnwys presgripsiynau amlroddadwy, dim ond pan fydd gennych wybodaeth ddigonol am iechyd y claf a phan fyddwch yn fodlon bod y cyffuriau neu'r driniaeth yn diwallu anghenion y claf<sup>9</sup>
- b** darparu triniaethau effeithiol wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael
- c** cymryd yr holl gamau ag y bo modd i leddfdu poen a gofid os yw gwellhad yn bosibl neu beidio<sup>10</sup>
- d** ymgynghori gyda chydweithwyr pan fo hynny'n briodol
- e** parchu hawl y claf i gael ail farn
- f** sicrhau bod y gofal neu'r driniaeth yr ydych yn ei ddarparu ar gyfer pob claf yn cyd-fynd ag unrhyw driniaethau eraill y mae'r claf yn eu cael, gan gynnwys (pan fo modd) meddyginiaethau dros y cownter y byddant yn eu rhagnodi i'w hunain
- g** pryd bynnag y bo modd, osgoi darparu gofal meddygol i'ch hun neu i unrhyw un y mae gennych berthynas bersonol agos gyda nhw.<sup>9</sup>

**17** Rhaid i chi fod yn fodlon bod gennych ganiatâd neu awdurdod dilys arall cyn i chi gyflawni unrhyw archwiliad neu ymchwiliad, darparu triniaeth neu gynnwys cleifion mewn gwaith ymchwil neu addysgu.<sup>4, 11, 12</sup>

**18** Rhaid i chi wneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael i chi.<sup>3</sup>

---

## Cofnodi'ch gwaith mewn ffordd eglur, manwl a darllenadwy

- 19** Rhaid i ddogfennau y byddwch yn eu paratoi (gan gynnwys cofnodion clinigol) er mwyn cofnodi'ch gwaith mewn ffordd ffurfiol, fod yn eglur, yn fanwl ac yn ddarllenadwy. Dylech lunio cofnodion ar yr un pryd â'r digwyddiadau yr ydych yn eu cofnodi, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny.
- 20** Rhaid i chi gadw cofnodion sy'n cynnwys data personol am gleifion, cydweithwyr neu unigolion eraill mewn man diogel, ac yn unol ag unrhyw ofynion diogelu data.<sup>14</sup>
- 21** Dylai cofnodion clinigol gynnwys:
- a** canfyddiadau clinigol perthnasol
  - b** y penderfyniadau a wnaethpwyd a'r camau y cytunwyd arnynt, ynghyd â phwy sy'n gwneud y penderfyniadau ac sy'n cytuno ar y camau gweithredu
  - c** y wybodaeth a roddwyd i gleifion
  - d** unrhyw gyffuriau a ragnodwyd neu archwiliad neu driniaeth arall
  - e** pwy sy'n gwneud y cofnod a phryd.

## Maes 2: Diogelwch ac ansawdd

---

### Cyfrannu at systemau er mwyn diogelu cleifion a chydymffurfio gyda nhw

**22** Rhaid i chi gymryd rhan mewn systemau sicrhau ansawdd a gwella ansawdd er mwyn hyrwyddo diogelwch cleifion. Mae hyn yn cynnwys:

- a** cymryd rhan mewn archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd o'ch gwaith a gwaith eich tîm, ymateb mewn ffordd adeiladol i'r canlyniadau, cymryd camau er mwyn rhoi sylw i unrhyw broblemau a chynnal hyfforddiant pellach yn ôl yr angen
- b** myfyrio ynghylch safonau'ch arfer meddygol a'r gofal yr ydych yn ei ddarparu yn rheolaidd
- c** adolygu adborth gan gleifion pan fydd ar gael.

**23** Er mwyn helpu i gadw cleifion yn ddiogel, rhaid i chi:

- a** gyfrannu at ymchwiliadau cyfrinachol
- b** cyfrannu at weithgarwch adnabod digwyddiadau niweidiol
- c** adrodd am ddigwyddiadau niweidiol y maent yn ymwneud â dyfeisiau meddygol ac y maent yn peryglu diogelwch claf neu berson arall, neu y gallent beryglu diogelwch claf neu berson arall.
- d** adrodd am achosion lle y ceir amheuaeth bod adweithiau niweidiol i gyffuriau wedi digwydd
- e** ymateb i geisiadau gan sefydliadau sy'n monitro iechyd y cyhoedd.

Wrth ddarparu gwybodaeth at y dibenion hyn, dylech barchu cyfrinachedd cleifion o hyd.<sup>14</sup>

---

## Ymateb i risgiau o ran diogelwch

- 24** Rhaid i chi hyrwyddo ac annog diwylliant sy'n galluogi'r holl staff i fynegi pryderon mewn ffordd agored a diogel.<sup>3, 15</sup>
- 25** Rhaid i chi weithredu yn ddi-oed os byddwch o'r farn bod diogelwch, urddas neu esmwythdra claf yn cael ei beryglu mewn ffordd ddifrifol, neu y gallai eu diogelwch, eu hurddas neu eu hesmwythdra gael ei beryglu mewn ffordd ddifrifol.
- a** Os na fydd claf yn cael gofal sylfaenol er mwyn bodloni eu hanghenion, rhaid i chi ddweud wrth rywun y maent mewn sefyllfa i weithredu, ar unwaith.
  - b** Os bydd cleifion mewn perygl oherwydd eiddo, offer<sup>13</sup> neu adnoddau, polisiau neu systemau eraill annigonol, dylech gywiro'r mater os oes modd. Rhaid i chi fynegi eich pryder yn unol â'n harweiniad<sup>14</sup> a pholisi eich gweithle. Yn ogystal, dylech wneud cofnod o'r camau yr ydych wedi'u cymryd.
  - c** Os oes gennych bryderon nad yw cydweithiwr yn addas i wneud gwaith meddygol efallai, a'u bod yn rhoi cleifion mewn perygl efallai, rhaid i chi geisio cyngor gan gydweithiwr, eich corff amddiffyn neu gennym ni. Os ydych yn pryderu am y sefyllfa o hyd, rhaid i chi adrodd am hyn, yn unol â'n harweiniad a pholisi eich gweithle, gan gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi'u cymryd.<sup>14, 16</sup>

- 26** Rhaid i chi gynnig cymorth os bydd argyfwng yn codi mewn lleoliad clinigol neu yn y gymuned, gan ystyried eich diogelwch, eich cymhwysedd a'r dewisiadau gofal eraill sydd ar gael.
- 27** Os oes gennych gleifion y maent yn blant neu'n oedolion agored i niwed<sup>17</sup> neu beidio, dylech ystyried eu hanghenion a'u lles, a chynnig help iddynt os ydych o'r farn bod eu hawliau wedi cael eu cam-drin neu eu gwrthod.<sup>18, 19</sup>
- 28** Os ydych yn gwybod bod gennych, neu os ydych yn credu y gallai fod gennych, gyflwr difrifol y gallech ei drosglwyddo i gleifion, neu os allai'ch barn neu'ch perfformiad gael ei effeithio gan gyflwr neu ei driniaeth, rhaid i chi ymgynghori â chydweithiwr sy'n meddu ar gymwysterau addas. Rhaid i chi ddilyn eu cyngor ynghylch unrhyw newidiadau i'ch arfer sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw. Ni ddylech ddibynnu ar eich asesiad chi o'r risg yr ydych yn ei achosi i gleifion.
- 29** Dylech gael eich imiwneiddio yn erbyn clefydau heintus difrifol cyffredin (oni bai bod hyn yn cael ei wrthgymeradwyo fel arall).
- 30** Dylech gofrestru gyda meddyg teulu y tu allan i'ch teulu.

## Maes 3: Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm

---

### Cyfathrebu effeithiol

- 31** Rhaid i chi wrando ar gleifion, ystyried eu safbwyntiau ac ymateb i'w cwestiynau mewn ffordd onest.
- 32** Rhaid i chi roi'r wybodaeth<sup>20</sup> y maent yn ei dymuno i gleifion, neu'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael, mewn ffordd y gallant ei deall. Dylech sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud, pryd bynnag y bo modd, i fodloni anghenion ieithyddol a chyfathrebu cleifion.<sup>21</sup>
- 33** Rhaid i chi fod yn ystyrlon o'r rhai sy'n agos i'r claf, a darparu gwybodaeth a chymorth iddynt mewn ffordd sensitif ac ymatebol.
- 34** Rhaid i chi fod ar gael mewn ffordd hwylus i gleifion a chydweithwyr sy'n ceisio gwybodaeth, cyngor neu gymorth pan fyddwch ar ddyletswydd.

## Cydweithio gyda chydweithwyr

- 35** Rhaid i chi gydweithio gyda chydweithwyr, gan barchu eu sgiliau a'u cyfraniadau.<sup>3</sup>
- 36** Rhaid i chi drin cydweithwyr mewn ffordd deg a gyda pharch.
- 37** Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r ffordd y gallai'ch ymddygiad ddylanwadu ar eraill o fewn y tîm a thu hwnt i'r tîm.
- 38** Gallai diogelwch cleifion gael ei effeithio os na fydd digon o wasanaeth meddygol. Felly, rhaid i chi gychwyn unrhyw swydd yr ydych wedi'i derbyn yn ffurfiol, gan weithio'ch cyfnod rhybudd cytundebol cyn gadael swydd, oni bai bod gan y cyflogwr amser rhesymol i wneud trefniadau eraill.

## Addysgu, hyfforddi, cynorthwyo ac asesu

- 39** Dylech fod yn barod i gyfrannu at y gwaith o addysgu a hyfforddi meddygon a myfyrwyr.
- 40** Rhaid i chi sicrhau bod yr holl staff yr ydych yn eu rheoli yn cael eu goruchwylio mewn ffordd briodol.
- 41** Rhaid i chi fod yn onest ac yn wrthrychol wrth ysgrifennu geirda ac wrth arfarnu neu asesu perfformiad cydweithwyr, gan gynnwys meddygon locwm a myfyrwyr. Rhaid i eirda gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch cymhwysedd, perfformiad ac ymddygiad eich cydweithwyr.<sup>22</sup>



- 
- 42** Dylech fod yn barod i gyflawni rôl mentor ar gyfer meddygon mwy iau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.<sup>3</sup>
- 43** Rhaid i chi gynorthwyo cydweithwyr y maent yn cael problemau gyda'u perfformiad neu eu hiechyd. Ond mae'n rhaid i chi roi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch cleifion bob amser.<sup>3</sup>

## Parhad a chyd-drefniant gofal

- 44** Rhaid i chi gyfrannu at y broses ddiogel o drosglwyddo cleifion rhwng darparwyr gofal iechyd a rhwng darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi:
- a** rannu'r holl wybodaeth berthnasol gyda chydweithwyr sy'n ymwneud gyda gofal eich cleifion o fewn a thu allan y tîm, gan gynnwys pan fyddwch yn trosglwyddo'r gofal pan fyddwch yn mynd oddi ar ddyletswydd a phan fyddwch yn dirprwyo gofal neu pan fyddwch yn cyfeirio cleifion at ddarparwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill<sup>8,14</sup>
  - b** sicrhau, pan fo hynny'n ymarferol, bod tîm neu glinigydd penodol wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb pan fydd eich rôl chi wrth ddarparu gofal ar gyfer claf wedi dod i ben. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig ar gyfer cleifion y mae eu galluedd yn ddiffygiol neu y maent yn agored i niwed am resymau eraill.
- 45** Pan na fyddwch chi yn darparu'r gofal ar gyfer eich cleifion, er enghraifft, pan na fyddwch ar ddyletswydd neu pan fyddwch yn dirprwyo gofal claf i gydweithiwr, rhaid i chi fod yn fodlon bod yr unigolyn sy'n darparu gofal yn meddu ar y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol er mwyn darparu gofal diogel ar gyfer y claf.<sup>8</sup>

## Sefydlu partneriaethau gyda chleifion, a'u cynnal

- 46** Rhaid i chi fod yn gwrtais ac yn ystyrgar.
- 47** Rhaid i chi drin cleifion fel unigolion, gan barchu eu hurddas a'u preifatrwydd.<sup>16</sup>
- 48** Rhaid i chi drin cleifion mewn ffordd deg a gyda pharch, beth bynnag fo eu dewisiadau mewn bywyd a'u credoau.
- 49** Rhaid i chi weithio mewn partneriaeth gyda chleifion, gan rannu'r wybodaeth gyda nhw y byddant ei hangen er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch eu gofal,<sup>21</sup> gan gynnwys:
  - a** eu cyflwr, ei ddatblygiad tebygol a'r dewisiadau ynghylch triniaeth, gan gynnwys risgiau ac ansicrwydd cysylltiedig
  - b** cynnydd eu gofal, a'ch rôl a'ch cyfrifoldebau chi yn y tîm

- 
- c** pwy sy'n gyfrifol am bob agwedd ar ofal claf, a sut y rhennir gwybodaeth o fewn timau ac ymhlith y rhai a fydd yn darparu eu gofal
  - d** unrhyw wybodaeth arall y bydd ei hangen ar gleifion os gofynnir iddynt gymryd rhan mewn gwaith addysgu neu ymchwil.<sup>12</sup>
- 50** Rhaid i chi drin gwybodaeth am gleifion yn gyfrinachol. Mae hyn yn cynnwys ar ôl i glaf farw.<sup>14</sup>
- 51** Rhaid i chi gynorthwyo cleifion i ofalu am eu hunain, er mwyn eu grymuso i wella'u hiechyd a'i gynnal. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys:
- a** cynghori cleifion am effeithiau eu dewisiadau mewn bywyd a'u ffordd o fyw ar eu hiechyd a'u lles
  - b** cynorthwyo cleifion i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw pan fo hynny'n briodol.
- 52** Rhaid i chi esbonio i gleifion os oes gennych wrthwynebiad cydwybodol i weithdrefn benodol. Rhaid i chi ddweud wrthynt bod ganddynt yr hawl i weld meddyg arall, gan sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth er mwyn arfer yr hawl honno. Wrth ddarparu'r wybodaeth hon, ni ddylech led-awgrymu neu fynegi'r ffaith nad ydych yn cymeradwyo ffordd o fyw, dewisiadau neu gredoau'r claf. Os nad yw hi'n ymarferol i glaf drefnu eu bod yn gweld meddyg arall, rhaid i chi sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud bod cydweithiwr arall sy'n meddu ar gymwysterau addas yn cyflawni eich rôl chi.<sup>23</sup>

## Maes 4: Cynnal ymddiriedaeth

---

### Dangos parch tuag at gleifion

- 53** Ni ddylech ddefnyddio eich sefyllfa broffesiynol i ganlyn perthynas rywiol neu emosiydol amhriodol gyda chlaf neu rywun sy'n agos iddynt.<sup>16</sup>
- 54** Ni ddylech gyfleu eich credoau personol (gan gynnwys eich credoau gwleidyddol, crefyddol a moesol) i'ch cleifion mewn ffyrdd sy'n cymryd mantais ar y ffaith eu bod yn agored i niwed, neu mewn ffyrdd sy'n debygol o beri gofid iddynt.<sup>23</sup>
- 55** Rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda chleifion os bydd pethau yn mynd o le. Os bydd claf yn eich gofal wedi dioddef niwed neu ofid, dylech chi:
- a** gywiro'r mater (os oes modd gwneud hynny)
  - b** cynnig ymddiheuriad
  - c** rhoi esboniad llawn yn ddi-oed o'r hyn sydd wedi digwydd, a'r effeithiau tebygol yn y tymor byr a'r tymor hir.

---

## Trin cleifion a chydweithwyr mewn ffordd deg, heb wahaniaethu

- 56** Rhaid i chi roi blaenoriaeth i gleifion ar sail eu hangen clinigol os yw'r penderfyniadau hyn o fewn eich pŵer. Os bydd adnoddau, polisïau neu systemau annigonol yn eich atal rhag gwneud hyn, ac os allai diogelwch, urddas neu esmwythdra claf gael ei beryglu mewn ffordd ddifrifol, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraff 25b (gweler adran *Maes 2: Diogelwch ac ansawdd*).
- 57** Rhaid i'r archwiliadau neu'r driniaeth a ddarparir gennych neu a drefnir gennych gael eu seilio ar yr asesiad yr ydych chi a'r claf yn ei wneud o'u hanghenion a'u blaenoriaethau, ac ar eich barn glinigol ynghylch effeithiolrwydd tebygol y dewisiadau ynghylch trin. Ni ddylech wrthod neu oedi triniaeth oherwydd eich bod o'r farn bod gweithredoedd neu ffordd o fyw claf wedi cyfrannu at eu cyflwr.
- 58** Ni ddylech wrthod trin claf oherwydd y gallai eu cyflwr meddygol eich rhoi chi mewn perygl. Os bydd claf yn peryglu eich iechyd neu'ch diogelwch chi, dylech gymryd pob cam sydd ar gael i leihau'r risg gymaint ag y bo modd cyn darparu triniaeth neu wneud trefniadau amgen addas ar gyfer darparu triniaeth.

- 59** Ni ddylech wahaniaethu mewn ffordd annheg yn erbyn cleifion neu gydweithwyr trwy ganiatáu i'ch safbwyntiau personol<sup>24</sup> effeithio ar eich perthynas broffesiynol gyda nhw neu'r driniaeth yr ydych yn ei darparu neu'n ei threfnu ar eu cyfer. Dylech herio cydweithwyr os nad yw eu hymddygiad yn cydymffurfio â'r arweiniad hwn, gan ddilyn yr arweiniad ym mharagraff 25c (gweler adran *Maes 2: Diogelwch ac ansawdd*) os bydd yr ymddygiad yn cyfateb â cham-drin neu wadu hawliau claf neu gydweithiwr.
- 60** Rhaid i chi ystyried ac ymateb i anghenion cleifion anabl, a dylech wneud addasiadau rhesymol<sup>25</sup> i'ch arfer er mwyn sicrhau bod modd iddynt gael gofal sy'n bodloni eu hanghenion.
- 61** Rhaid i chi ymateb yn ddi-oed i gwynion, ac mewn ffordd lawn a gonest, gan ymddiheuro pan fo hynny'n briodol. Ni ddylech ganiatáu i gŵyn claf gael effaith niweidiol ar y gofal neu'r driniaeth y byddwch yn ei darparu neu'n ei threfnu.
- 62** Dim ond pan fo'r ymddiriedaeth rhyngoch chi a'r claf wedi diflannu ac mae hyn yn golygu nad oes modd i chi ddarparu gofal clinigol da i'r claf, y dylech chi derfynu perthynas broffesiynol gyda chlaf.<sup>26</sup>

- 
- 63 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod gennych chi yswiriant neu indemniad digonol er mwyn sicrhau na fydd eich cleifion dan anfantais os byddant yn gwneud hawliad am y gofal clinigol a ddarparwyd gennych yn y DU.
  - 64 Os bydd rhywun yr ydych yn cael cyswllt gyda nhw yn eich rôl proffesiynol yn gofyn am eich enw cofrestredig a/neu'ch cyfeirnod CMC, rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth hon iddynt.

## Gweithredu mewn ffordd onest a didwyll

- 65 Rhaid i chi sicrhau bod eich ymddygiad yn cyfiawnhau ymddiriedaeth eich cleifion ynddoch, yn ogystal ag ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn.
- 66 Rhaid i chi fod yn onest am eich profiad, eich cymwysterau a'ch rôl presennol bob amser.
- 67 Rhaid i chi weithredu mewn ffordd onest a didwyll pan fyddwch yn cynllunio, yn trefnu neu'n cynnal gwaith ymchwil, gan ddilyn canllawiau llywodraethu cenedlaethol ar gyfer gwaith ymchwil a'n harweiniad.<sup>4</sup>

## Cyfleu gwybodaeth

- 68 Rhaid i chi fod yn onest ac yn ddibynadwy yn eich holl gyfathrebu gyda chleifion a chydweithwyr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi nodi terfynau'ch gwybodaeth mewn ffordd eglur, gan gynnwys archwiliadau rhesymol er mwyn sicrhau bod unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn gywir.

- 69** Wrth gyfathrebu mewn ffordd gyhoeddus, gan gynnwys siarad gyda'r cyfryngau neu ysgrifennu yn y cyfryngau, rhaid i chi gynnal cyfrinachedd cleifion. Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, dylech gofio y gallai cyfathrebu a fwriedir ar gyfer ffrindiau a theulu fod ar gael yn fwy eang.<sup>14, 27</sup>
- 70** Wrth hysbysebu'ch gwasanaethau, rhaid i chi sicrhau bod y wybodaeth yr ydych yn ei chyhoeddi yn ffeithiol a bod modd ei harchwilio, ac nad yw'n camfanteisio ar y ffaith bod cleifion yn agored i niwed, neu'r ffaith nad ydynt yn meddu ar wybodaeth feddygol.
- 71** Rhaid i chi fod yn onest ac yn ddibynadwy wrth ysgrifennu adroddiadau, ac wrth lenwi neu lofnodi ffurflenni, adroddiadau a dogfennau eraill.<sup>22</sup> Rhaid i chi sicrhau na fydd unrhyw ddogfennau y byddwch yn eu ysgrifennu neu'n eu llofnodi yn anghywir neu'n gamarweiniol.
- a** Rhaid i chi gymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir.
  - b** Ni ddylech hepgor gwybodaeth berthnasol yn fwriadol.



---

## Bod yn agored ac achosion cyfreithiol neu ddisgyblu

**72** Rhaid i chi fod yn onest ac yn ddibynadwy wrth roi tystiolaeth gerbron llysoedd neu dribiwnlysoedd.<sup>28</sup> Rhaid i chi sicrhau na fydd unrhyw dystiolaeth y byddwch yn ei rhoi neu ddogfennau y byddwch yn eu hysgrifennu neu'n eu llofnodi, yn anghywir neu'n gamarweiniol.

**a** Rhaid i chi gymryd camau rhesymol i ddilysu'r wybodaeth.

**b** Ni ddylech hepgor gwybodaeth berthnasol yn fwriadol.

**73** Rhaid i chi gydweithredu gydag ymchwiliadau ffurfiol a gweithdrefnau cwyno, gan ddatgelu'r holl wybodaeth berthnasol a chan ddilyn yr arweiniad yn nogfen *Cyfrinachedd*.

**74** Rhaid i chi nodi terfynau'ch cymhwysedd a'ch gwybodaeth yn eglur os byddwch yn rhoi tystiolaeth neu'n cyflawni rôl tyst.<sup>28</sup>

**75** Rhaid i chi ddweud wrthym yn ddi-oed os bydd unrhyw rai o'r sefyllfaoedd isod yn digwydd i chi, unrhyw le yn y byd:

**a** rydych wedi cael eich rhybuddio gan yr heddlu neu'ch beirniadu gan ymchwiliad swyddogol

**b** rydych wedi cael eich cyhuddo neu'ch canfod yn euog o gyflawni trosedd

**c** mae corff proffesiynol arall wedi gwneud canfyddiad yn erbyn eich cofrestrriad o ganlyniad i weithdrefnau addasrwydd i wneud gwaith meddygol.<sup>29</sup>

**76** Os byddwch yn cael eich atal o swydd feddygol gan sefydliad, neu os pennir cyfyngiadau ar eich gwaith, rhaid i chi hysbysu unrhyw sefydliadau eraill yr ydych yn cyflawni gwaith meddygol ar eu cyfer yn ddi-oed, yn ogystal ag unrhyw gleifion yr ydych yn eu gweld dan drefniant annibynnol.

### **Gonestrwydd mewn trafodion ariannol**

**77** Rhaid i chi fod yn onest mewn trafodion ariannol a masnachol gyda chleifion, cyflogwyr, yswirwyr a sefydliadau neu unigolion eraill.<sup>30</sup>

**78** Ni ddylech ganiatáu i unrhyw fuddiannau sydd gennych i effeithio ar y ffordd y byddwch yn rhagnodi ar gyfer cleifion, yn trin cleifion, yn cyfeirio cleifion neu'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer cleifion.

**79** Os byddwch yn wynebu gwrthdaro rhwng buddiannau, rhaid i chi fod yn agored am y gwrthdaro, gan ddatgan eich budd mewn ffordd ffurfiol, a dylech fod yn barod i beidio bod yn rhan o'r broses benderfynu.

**80** Ni ddylech ofyn am na derbyn – wrth gleifion, cydweithwyr neu eraill – unrhyw gymhelliad, rhodd neu letygarwch a allai effeithio neu gael ei weld yn effeithio ar y ffordd yr ydych yn rhagnodi ar gyfer cleifion, yn trin cleifion, yn cyfeirio cleifion neu'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer cleifion. Ni ddylech gynnig y fath gymhellion.

# Ôl-nodion

---

- 1 Mae cydweithwyr yn cynnwys unrhyw un y mae meddyg yn gweithio gyda nhw, os ydynt yn feddygon hefyd neu beidio.
- 2 Mae modd i chi weld yr holl arweiniad esboniadol ar ein gwefan.
- 3 *Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg* (2012) CMC, Llundain
- 4 *Arfer da ym maes gwaith ymchwil* (2010) CMC, Llundain
- 5 *Datblygu athrawon a hyfforddwyr ym maes addysg feddygol israddedig* (2010) CMC, Llundain
- 6 *Datblygiad proffesiynol parhaus: arweiniad i bob meddyg* (2012) CMC, Llundain
- 7 Ychwanegwyd y paragraff hwn ar 29 Ebrill 2014. Adran 35C(2)(da) *Deddf Meddygol 1983*, a fewnosodwyd gan *Orchymyn Deddf Meddygol 1983 (Diwygio) (Sgiliau Saesneg)* 2014.
- 8 *Dirprwyo a chyfeirio* (2013) CMC, Llundain
- 9 *Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau* (2013) CMC, Llundain
- 10 *Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud penderfyniadau* (2010) CMC, Llundain
- 11 *Gwneud a defnyddio recordiadau gweledol a sain o gleifion* (2011) CMC, Llundain
- 12 *Caniatâd i ymchwilio* (2013) CMC, Llundain
- 13 Dilynwch yr arweiniad ym mharagraff 23c os bydd y risg yn deillio o ddigwyddiad niweidiol sy'n ymwneud â dyfais feddygol.

- 14 *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion* (2017) CMC, Llundain
- 15 *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch* (2012) CMC, Llundain
- 16 Cynnal terfynau (2013) CMC, Llundain
- *Archwiliadau personol a gwarchodwyr* (paragraffau 47, 25c)
  - *Cynnal terfyn proffesiynol rhyngoch chi a'ch claf* (paragraff 53)
  - *Ymddygiad rhywiol a'ch dyletswydd i adrodd* (paragraffau 53, 25c)
- 17 Mae rhai cleifion yn debygol o fod yn fwy agored i niwed nag eraill oherwydd eu salwch, eu hanabledd neu eu cyflwr eiddil, neu oherwydd eu hamgylchiadau presennol, megis profedigaeth neu golli swydd. Dylech drin plant a phobl ifanc dan 18 oed fel unigolion agored i niwed. Mae bod yn agored i niwed yn gallu bod yn sefyllfa dros dro neu barhaol.
- 18 *0-18 oed: arweiniad i bob meddyg* (2007) CMC, Llundain
- 19 *Diogelu plant a phobl ifanc: cyfrifoldebau pob meddyg* (2012) CMC, Llundain
- 20 Yma, mae cleifion yn cynnwys y bobl hynny y mae ganddynt yr awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau gofal iechyd ar ran claf.
- 21 *Caniatâd: cleifion a meddygon gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd* (2008) CMC, Llundain
- 22 *Ysgrifennu geirda* (2012) CMC, Llundain
- 23 *Credoau personol ac arfer meddygol* (2013) CMC, Llundain
- 24 Mae hyn yn cynnwys eich safbwyntiau chi am ffordd o fyw claf, eu diwylliant neu eu statws cymdeithasol neu economaidd, yn ogystal â'r

---

nodweddion sy'n cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth: oedran, anabled, ailbennu rhywedd, hil, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

25 Nid yw 'addasiadau rhesymol' yn golygu newidiadau i'r amgylchedd ffisegol yn unig. Mae'n gallu cynnwys, er enghraifft, bod yn hyblyg ynghylch amser neu hyd apwyntiadau, a gwneud trefniadau ar gyfer y rhai y maent yn cael anhawster wrth gyfathrebu, megis y rhai y mae ganddynt nam ar eu clyw. Am ragor o wybodaeth, trowch at wefan EHRC.

26 *Terfynu'ch perthynas broffesiynol gyda chlaf* (2013) CMC, Llundain

27 *Defnydd meddygon o gyfryngau cymdeithasol* (2013) CMC, Llundain

28 *Cyflawni rôl tyst mewn achosion cyfreithiol* (2013) CMC, Llundain

29 *Adrodd am achosion rheoliadol a throseddol o fewn a thu allan y DU* (2013) CMC, Llundain

30 *Trefniadau ariannol a masnachol a gwrthdaro rhwng buddiannau* (2013) CMC, Llundain

# Mynegai

---

## A

achosion cyfreithiol 72–76  
adborth clefion 22c  
adnabod a chofnodi digwyddiad  
    arwyddocaol 23b  
adnoddau 18  
adnoddau annigonol 56  
adrodd pryderon 24, 25c  
adroddiadau, ysgrifenedig 71  
adweithiau niweidiol i gyffuriau 23c  
addasrwydd i wneud gwaith  
    meddygol cydweithwyr 25c  
    gweithdrefnau 75c  
addysgu 7, 17, 39–43  
ail farn 16e  
anabledd, ansawdd bywyd 2  
ansawdd bywyd 2  
ansawdd gwaith, gwella 13  
archwiliad 22a  
archwilio claf 15a  
argyfyngau, darparu gofal mewn 26  
arweiniad, bod yn ymwybodol o'r  
    arweiniad diweddaraf 12  
arweiniad CMC, bod yn gyfarwydd  
    gydag ef 3  
asesu clefion 15a  
atal 76  
awdurdod dilys 17

## B

barn glinigol 57  
blaenoriaeth 56  
bod yn agored 72–76  
bod yn ymwybodol o'r datblygiadau  
    diweddaraf 8, 12  
buddiannau ariannol 77  
buddiannau masnachol 77

## C

cadw cofnodion 19–21  
    diogelwch 20  
camgymeriadau 55a–c  
caniatâd 17  
canllawiau, bod yn gyfarwydd gyda  
    nhw 11  
canllawiau llywodraethu ymchwil  
    cenedlaethol 67  
clefydau trosglwyddadwy 29  
clefydau trosglwyddadwy difrifol 29  
clefion anabl 60  
cofnodi hanes 15a  
cofnodi penderfyniadau 21b  
cofnodion clinigol 19, 21a–e  
cofnodion meddygol 19–21  
cofrestriad, risg i 6  
crebwyll wrth weithredu'r  
    arweiniad 4  
credoau crefyddol 48, 52, 54

- 
- credoau gwleidyddol 46  
 credoau moesol 54  
 credoau personol 54  
 cydlynu gofal 44, 45  
 cydweithio gyda chydweithwyr 35  
 cydweithredu gydag ymchwiliadau  
     ffurfiol a gweithdrefnau  
         cwyno 73  
 cydweithwyr  
     adrodd pryderon 24  
     cynorthwyo 43  
     gwahaniaethu yn erbyn 59  
     gweithio gyda 35–38  
     herio cydweithwyr nad yw eu  
         hymddygiad yn cydymffurfio  
         gydag arweiniad 59  
     pryderon ynghylch 24, 25c,  
         41, 59  
     ymgyngori 16d  
 cyfathrebu 31–52  
     effeithiol 31–34  
     gwybodaeth 68–71  
     gyda'r cyhoedd 69  
 cyfleoedd cymorth strwythuredig 10  
 cyfrinachedd 20, 50, 69, 73  
 cyfyngiadau ar arfer meddygol 76  
 cymhellion 80  
 cymhwysedd 1, 7  
     cynnal 9  
     gweithio o fewn terfynau 14  
     terfynau, datgan wrth roi  
         tystiolaeth 74  
 cymuned, darparu gofal mewn  
     argyfyngau 26  
 cyngor, ceisio 25c  
     ei ddarparu yn ddi-oed 15b  
     ynghylch ffordd o fyw 51a,b  
 cwrteisi 46  
 cwynion 61  
     gweithdrefnau ar gyfer 73  
 cyfathrebu cyhoeddus 69  
 cyfeiriadau 15c  
 cyfiawnhau penderfyniadau a  
     chamau gweithredu 4  
 cyfryngau 69  
 cymwysterau, gonestrwydd  
     ynghylch 66
- D**
- darparwyr gofal cymdeithasol  
     44a, b  
 datblygiad proffesiynol 7–13  
 datblygiad proffesiynol parhaus 9  
 defnyddio adnoddau 18  
 derbyn swyddi 38  
 diogelu data 20  
 diogelwch 22–30  
 diogelwch cleifion

adrodd pryderon 25a-c  
cydweithwyr 43  
darparu gwybodaeth 23a-d  
dirprwyo 45  
gofal sylfaenol 25a  
gwasanaeth meddygol 38  
hyrwyddo 22a-c  
risg a achosir gan  
salwch personol 28  
diogelwch gwybodaeth 69  
dirprwyo gofal 44a, 45  
dogfennaeth 19  
gonestrwydd ac uniondeb  
mewn 71  
'dylai', diffiniad o 5

## E

esmwythdra claf 25

## FF

ffordd o fyw, cynghori cleifion  
ynghylch 51a, b

## G

geirda 41  
gofal  
ar gyfer y rhai yr ydych yn agos  
iddynt 16g

clinigol 16a–g  
sylfaenol 25a  
gofal clinigol 16a–g  
gofal lliniarol 16c  
gofal sylfaenol 25a  
gofal wedi'i seilio ar dystiolaeth 16b  
gonestrwydd 1, 55, 65–67, 68  
dogfennaeth 71  
gwybodaeth 68–71  
lletygarwch 80  
trefniadau ariannol 77  
goruchwyllo staff 40  
grwpiau agored i niwed 27, 77b, 60  
gwahaniaethu 59  
gwaith tîm 31–52  
gweithio mewn partneriaeth gyda  
chleifion 2  
gwefannau cyfryngau cymdeithasol  
69  
gwella ansawdd gwaith 13  
gwirfoddolwyr 70  
gwrthdaro rhwng buddiannau 78, 79  
gwrthod triniaeth 57, 58  
gwrthwynebiadau cydwybodol 52  
gwrando ar gleifion 31  
gwybodaeth, 7–21  
cyfathrebu 68–71  
darparu 32



diweddaraf 1  
 gonestrwydd ac uniondeb 68–71  
 rhannu 44a, 49a–d  
 terfynau 74

## H

hawliau claf 52  
 hepgor gwybodaeth 71b, 72b  
 hunanofal 16g  
 hunan-ragnodi, cleifion 16f  
 hygyrchedd gwybodaeth 32  
 hyfforddiant 10, 22a, 39–43  
 hysbysebu 70  
 hysbysu CMC o droseddau 75b

## I

iaith  
     Saesneg 14.1  
     anghenion cyfathrebu 32  
 iechyd personol 28–30  
 imiwneiddio 29

## LL

lleddfu gofid 16c  
 lleddfu poen 16c  
 llofnodi ffurflenni 71

## M

marwolaeth claf 50  
 meddyginiaethau dros y cownter 16f  
 meddygon iau 42  
 meddygon locwm 41  
 mentora 10, 42  
 monitro ansawdd gwaith 13  
 monitro iechyd y cyhoedd 23d  
 myfyrwyr 39, 41

## O

oedi triniaeth 57  
 offer, annigonol 25b

## P

parch 16e, 36, 48, 53–55  
 parhad gofal 44, 45  
 partneriaeth, gyda'r claf 2, 46–52  
 penderfyniadau a wneir gan  
     gleifion 49a–d  
 perfformiad 7–21  
     cynnal 9  
     proffesiynol 7–13  
 perthnasau, cleifion 33  
 perthnasoedd  
     amhriodol 53  
     gyda chleifion 1, 53  
     gyda chydweithwyr 1

perthnasoedd amhriodol gyda  
chleifion 53

perthnasoedd gyda chleifion 1  
amhriodol 53  
terfynu 62

perthnasoedd rhywiol 53  
plant 27

pobl ifanc 27

polisi y gweithle 25b, c

preifatrwydd 2, 46

presgripsiynau amlroddadwy 16a

proffesiynoldeb 1–6

profiad, gonestrwydd ynghylch 66

proses ailddilysu 6

## R

risg

a achosir gan salwch personol 28

i ddiogelwch 24–27

i gleifion, lleihau 23

personol 58

## RH

Saesneg, sgiliau 14.1

rhagnodi 16a, 78

'rhaid', diffiniad o 5

rheoliadau, bod yn ymwybodol o'r

rhai diweddaraf 12

rheoli cymhwysedd 7

rhoddion 80

rhoi tystiolaeth mewn llys 72

rhybudd cytundebol 38

rhybudd gan yr heddlu 75a

## S

safbwytiau claf 15a, 31

safbwytiau personol am gleifion  
neu gydweithwyr 59

safleoedd, annigonol 25b

safon gofal 15

safonau gwaith meddygol 22b

salwch, personol 80

sgiliau proffesiynol, eu diweddarau 8

sicrhau ansawdd a

gwella 22a–c

sicrwydd indemniad 63

## T

terfynu penodiadau 38

terfynu perthnasoedd gyda  
chleifion 62

termau a ddefnyddir yn *Arfer  
meddygol da* 5

trefniadau ariannol 77–80

tribiwnlysoedd 72

triniaeth

darpariaeth brydlon 15b

effeithiol 16b

---

oedi 57  
risg personol a darparu 58  
triniaethau yn cyd-fynd 16f  
trosedd 75b  
trosglwyddo cleifion 44a  
trwydded i wneud gwaith  
meddygol 6  
tyst, cyflawni rôl 74  
tystiolaeth, rhoi 74

## U

uniondeb 1, 65–80  
urddas 2, 25, 47

## Y

y gyfraith  
bod yn ymwybodol o'r  
datblygiadau diweddaraf 12  
gweithredu o fewn 1  
ymchwil 17, 67  
ymchwiliad swyddogol 75a  
ymchwiliadau, eu darparu yn ddi-  
oed 15b  
ymchwiliadau ffurfiol 73  
ymddiheuro 55b, 61  
ymddiriedaeth 1, 65, 68  
cynnal 53–80  
diflannu 62  
ymddiriedaeth yn diflannu 62

ymddygiad 65  
ymddygiad personol 37, 65  
ymholiadau cyfrinachol 23a  
ysgrifennu adroddiadau 19–21, 71  
ystyriaeth 46  
yswiriant 63









E-bost: [gmc@gmc-uk.org](mailto:gmc@gmc-uk.org)

Gwefan: [www.gmc-uk.org](http://www.gmc-uk.org)

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **deialwch y rhifau cyntaf 18001** yna **0161 923 6602** er mwyn defnyddio'r gwasanaeth Trosglwyddo Testun

Ymunwch â'r sgwrs

 [@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)

 [facebook.com/gmcuk](https://facebook.com/gmcuk)

 [linkd.in/gmcuk](https://linkd.in/gmcuk)

 [youtube.com/gmcuktv](https://youtube.com/gmcuktv)

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn iaith neu ffurf arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602**, neu anfonwch e-bost atom, at [publications@gmc-uk.org](mailto:publications@gmc-uk.org).

Cyhoeddwyd Mawrth 2013

2019 | Diweddarwyd Ebrill 2019

Gellir atgynhychu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei bod yn cael ei hatgynhychu'n gywir, ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

ISBN: 978-0-901458-61-2

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278)  
a'r Alban (SC037750)

Cod: GMC/GMP-W/0419

Cyngor  
Meddygol  
Cyffredinol